# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 02 Rhagfyr 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 25 Tachwedd 2003

### Dadl Plaid Leiafrifol

**NDM1727 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd ati ar frys i gyflwyno cynigion manwl i fynd i'r afael â'r rhestrau aros annerbyniol o hir a'r broblem gynyddol o flocio gwelyau, ac yn condemnio'r Llywodraeth am beidio â gweithredu argymhellion Derek Wanless mewn ffordd strategol a chydlynol.

**NDM1728 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.3, yn mabwysiadu'r gyllideb derfynol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2004-2005, 2005-2006 a 2006-2007, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2003 gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**NDM1729 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r rheoliadau drafft "Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau, ar 25 Tachwedd 2003; a

b) Yn cymeradwyo bod "Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003" yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003; a

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, "Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2003", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 25 Tachwedd 2003; a

b) Yn cymeradwyo bod y "Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2003" yn cael ei wneud yn unol â'r gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19

Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2003; a

3.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, "Rheoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2003" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 25 Tachwedd 2003; a

b) Yn cymeradwyo bod y "Rheoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2003" yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2003 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy’r e-bost at yr Aelodau ar 25 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2003; a

4.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, "Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 25 Tachwedd 2003; a

b) Yn cymeradwyo bod "Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003" yn cael ei wneud yn unol â'r gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2003.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 27 Tachwedd 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1727**

**Karen Sinclair (De Clwyd)**

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ac yn ei le rhoi:

1. Yn cymeradwyo camau Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag amserau aros yng Nghymru;

2. Yn nodi, yn arbennig, y gostyngiadau sylweddol yn nifer y rheini sy'n gorfod aros am amser hir yn y meysydd y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt, effaith bositif y buddsoddiad diweddar i leihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal, a'r cynllun 'gwarant ail gynnig' a gyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Tachwedd 2003;

3. Yn croesawu ac yn cymeradwyo ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad Wanless o Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

*Gellir gweld ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol trwy ddefnyddio'r ddolen isod:*
*http://www.cymru.gov.uk/servlet/HealthAndSocialServicesCommittee?area_code=37D6A89F00087B5500001214000000000&document_code=N000000000000000000000000013883&p_arch=post&module=dynamicpages&month_year=*